

SL(5)600 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i ychwanegu Portiwgal at y rhestr ¹, ac i hepgor Awstria, Croatia a Thrinidad a Thobago.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r categorïau o bersonau sydd yn esempt o'r gofynion i ynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Mae paragraff 38 newydd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a fewnosodir gan reoliad 8(3) o'r Rheoliadau hyn, wedi ei ddrafftio yn yr amser gorffennol yn y testun Saesneg, ond yn yr amser presennol yn y testun Cymraeg.

¹ Er bod Portiwgal, ar yr adeg ysgrifennu, wedi'i hepgor o'r rhestr.



Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol bod angen cyfnod o 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a bod Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, wedi esbonio'r rheswm dros hyn mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 21 Awst 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud y canlynol:

"mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys fersiwn PDF o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn dweud "I ddangos sut y diwygiwyd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020". Mae'r fersiwn PDF hon yn Gymraeg (cyfeirir defnyddwyr at wefan legislation.gov.uk i gael fersiwn gyfoes yn Saesneg). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei bod wedi ei diweddarw ers 15 Mehefin 2020, felly nid yw'n adlewyrchu'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, nac unrhyw ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ers 15 Mehefin. Felly, nid yw'n ymddangos bod fersiwn gyfunol o fewn cyrraedd hwylus o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol testun Cymraeg.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Pwynt craffu technegol 1:

Ymateb:

Rydym yn cytuno bod amser y ferf yn wahanol mewn manau yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn y paragraff 38 newydd sydd i'w fewnosod yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Penderfynwyd defnyddio'r amser presennol yn y testun Cymraeg er mwyn sicrhau cysondeb â'r paragraffau blaenorol yn Atodlen 2, sy'n rhestru personau nad yw'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth wrth gyrraedd Cymru. Wrth ystyried geiriau cloi paragraff 38(1), rydym o'r farn nad yw'r gwahaniaeth yn amser y ferf yn newid yr ystyr nac yn



creu amwysedd, gan fod y cymal olaf yn ei gwneud yn glir bod y person wedi dychwelyd i'r DU ar ôl cymryd rhan yn y gweithgareddau a restrir.

Serch hynny, byddwn yn diwygio'r testun Cymraeg y tro cyntaf y bydd cyfle addas yn codi.

Pwynt craffu ar rinweddau 2:

Ymateb:

Gwnaed y penderfyniad i ddileu'r fersiwn 'fel y'i diwygiwyd' wreiddiol o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") nad yw'n gyfredol, fel rydych wedi ei nodi a hynny'n ddefnyddiol. Mae'r ddeddfwriaeth wedi ei diweddarau ar gael ar legislation.gov.uk ac mae ein canllawiau hefyd yn cynnwys y cyngor diweddaraf ynghylch pa wledydd a thiriogaethau sy'n esempt.

Crëwyd y fersiwn Gymraeg hon am reswm penodol ar adeg benodol. Ar hyn o bryd, nid yw legislation.gov.uk ond yn dangos y ddeddfwriaeth wedi ei diweddarau yn Saesneg. Y bwriad yw sicrhau adnoddau ychwanegol i alluogi diweddarau'r wefan hon, fel y gall testunau Cymraeg gael eu diweddarau hefyd. Dim ond oherwydd bod y diwygiadau a oedd yn cael eu gwneud bryd hynny yn effeithio'n bennaf ar y testun Cymraeg yn unig y lluniwyd y fersiwn 'fel y'i diwygiwyd' gychwynnol o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn Gymraeg. Felly, darparwyd dogfen y gallai pobl gyfeirio ati fel ffordd o ymdrin â'r pryderon penodol bryd hynny.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

